

# Tro gyda'r tywysogion

John G. Roberts o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn arwain taith gerdded gyda thywysogion a thaeogion a thrwy filoedd o flynyddoedd o hanes yn Aber



*Pentref Abergwyngregyn yn nyffryn Afon Rhaeadr Fawr gydag afon Menai a Môn y tu hwnt*

© John G. Roberts, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

I'r bobl hynny sy'n rhuthro ar hyd yr A55 brysur rhwng Conwy a Bangor, dyw Abergwyngregyn yn ddim byd mwy na chipolwg cyflym o enw ar arwydd ffordd. Mae rhai'n gwybod bod y pentref bychan, Aber ar lafar gwlad, yn fan cychwyn ar gyfer teithiau cerdded dymunol at y Rhaeadr Fawr — un o raeadrau prydferthaf Cymru — neu i Warchodfa Natur Genedlaethol Coedydd Aber.

Mae llai o bobl yn ymwybodol bod Aber yn llys pwysig i dywysogion canoloesol Gwynedd, un o'r canolfannau lle y bydden nhw'n aros yn gyson wrth deithio'u tiroedd. Mae olion y llys i'w gweld o hyn yn y pentref a'r dirwedd o'i

amgylch, ynghyd â safleoedd hŷn fyth. Mae Partneriaeth Dyffryn Treftadaeth Aber ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, gyda chefnogaeth Cadw trwy Fenter Treftadaeth Ddiwylliannol Cymru, yn gweithio i agor yr hanes hwn i gynulleidfa ehangach gyda hraglen sy'n cynnwys cloddio archeolegol a gwell dehongli.

Mae'r daith gylch hon at y Rhaeadr Fawr ac yn ôl yn mynd heibio nifer o safleoedd sydd, rhyngddydd nhw, yn adrodd stori Aber a'r cyffiniau yn ystod y drydedd ganrif ar ddeg, pan ddaeth tywysogion mawr Gwynedd, Llywelyn ab Iorwerth (bu f. 1240) a'i wŷr, Llywelyn ap Gruffudd (bu f. 1282), i'r amlwg yn brif lywodraethwyr brodorol Cymru.

## Cyn i chi ddechrau

**Pellter:** 4.7 milltir (7.5km)

**Amser:** 3 awr

**Map:** OS Explorer OL17 Yr Wyddfa

**Dechrau / Parcio:** Cymerwch allanfa 13 o'r A55 er mwyn cyrraedd Abergwyngregyn. Mae parcio am ddim ar gael ar ddechrau'r daith (SH 656728).

**Tirwedd:** Ffyrdd Tawel, traciau a llwybrau. Mae yna rai rhiwiau cymedrol a serth i fyny ac i lawr ac mae'n bosib y bydd y ddaear yn anwastad neu'n fwdlyd, yn dibynnu ar yr amodau.

**Lluniaeth:** Mae caffî'r Hen Felin, yng nghanol Aber, ar agor 10yb-5yh o ddydd Llun i ddydd Sadwrn a 10yb i 4yh ar ddyddiau Sul. Ffôn: 01248 689454

**Trafnidiaeth Gyhoeddus:** Mae bysiau rhwng Llanfairfechan a Bangor yn galw yn Aber. Ffoniwch Traveline Cymru — 0871 2002233 — am wybodaeth.

Gall y tywydd newid yn gyflym yn yr ucheldir. Gwisgwch esgidiau cryfion. Ewch â dillad glaw, dillad cynnes, cwmpawd, bwyd a diod. Does dim signal ffôn symudol am y rhan fwyaf o'r llwybr.

Cofiwch ddilyn y Côt Cefn Gwlad: [www.countrysidecode.wales.org.uk](http://www.countrysidecode.wales.org.uk)


© Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru (Hawlfraint y Goron) 2010

Ymddangosodd yr erthygl hon am y tro cyntaf yn rhifyn 47 (gaeaf 2010) o *Etifeddiaeth y Cymry*, cylchgrawn aelodau Cadw, gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Am ragor o wybodaeth am ymaelodi ag Etifeddiaeth y Cymry a'r buddiannau o wneud hynny, ewch i wefan Cadw:

[www.cadw.cymru.gov.uk](http://www.cadw.cymru.gov.uk)



Wedi ei atgynhyrchu gyda chaniatâd Arolwg Ordans ar ran HMSO. © Hawlfraint y Goron 2010. Pob hawl wedi'u gadw. Rhif trwydded Arolwg Ordans 100021874



*Y llwybr a'r safleoedd a'r nodweddion sy'n cael eu crybwyll yn yr erthygl*

**Ymweliad I — Y mwnt / llys**

Croeswch y ffordd o'r maes parcio a galwch i mewn yn y ganolfan ymwelwyr fechan cyn parhau i fyny'r lôn gul i'r dde i mewn i'r pentref. Cadwch yn syth ymlaen ar hyd y lôn, ac ar ôl tua 110 llath (100m) edrychwch rhwng y tai ar y chwith i weld tomen brid fawr.

Mae hwn yn fwnt, ne sylfaen i gastell pren. Mae'n debyg ei fod yn fwnt Normanaidd, er bod yna fwntiau brodorol i'w cael. Fe adeiladodd y Normaniaid fwntiau yng nghanolfannau grym brodorol Gwynedd ac roedd yna ymgyrchoedd yn yr ardal hon yn y 1080au a'r 1090au.

Ewch ymlaen am 110 llath (100m) arall ac arhoswch ar ôl capel bychan, wrth i'r ffordd wyro ar hyd ffin cae i'r chwith.

Mae patrwm y ffordd a'r cae yma o bosib yn dangos rhan o amlinelliad beili, darn o dir wedi'i amddiffyn sy'n aml ynghlwm wrth fwnt.

Trwy waith cloddio yn y cae yn 1993 dadorchuddiwyd sylfeini cerrig i neuadd a oedd wedi ei newid yn ddiweddarach yn mewn i adeilad asgellog. Roedd crochenwaith a broetsh a ddarganfuwyd yno'n dyddio'r strwythur i'r drydedd a'r bedwaredd ganrif ar ddeg, ac mae'n bosib iddo fod yn rhan o'r llys. Ar ôl y goresgyniad Edwardaidd, mae

adroddiadau brenhinol yn cofnodi gwaith adeiladu ar y neuadd a'r siambr yn Aber, ac efallai bod y newidiadau a ddarganfuwyd yn adlewyrchu'r gwaith hwnnw.

Fodd bynnag, mae union safle llys Aber yn destun dadl. Mae traddodiad lleol a rhai awduron diweddarach yn ei gysylltu â Phen y Bryn, tŷ a thŵr crand uwchlaw'r pentref. Mae'n bosib y bydd gwaith cloddio newydd sy'n digwydd yn yr ardal ger y mwnt yn talfu rhagor o oleuni ar leoliad y llys ac elfennau eraill o Aber y Canol Oesoedd.



*Mae'r domen, y credir ei bod yn domen castell (Ymweliad 1), ar y chwith yn y llun yma o'r cloddio yn Aberystwyth yn 2010*



*Sylfeini'r neuadd wedi'u datgelu gan waith cloddio 1993*

© John G. Roberts, SNPA

© Ymddiriedolaeth Archaolegol Gwynedd



### Ymweliad 2 — Bont Newydd

Ewch ymlaen ar hyd y ffordd i Bont Newydd, pont o'r ail ganrif ar bymtheg, 0.62 milltir (1 km) i'r de o'r pentref.

Mae bryngaer o Oes yr Haearn, Maes y Gaer, uwch eich pen i'r gogledd-ddwyrain ac roedd llwybr hynafol yn arfer mynd o Ddyffryn Conwy dros y mynyddoedd gan ddod i lawr at Bont Newydd cyn parhau ar lanw isel ar draws tywod Traeth Lafan i Lanfaes yn Ynys Môn. Roedd y man croesi yn brysus nes codi Pont Menai gan Telford yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae safle strategol Aber yn rhannol esbonio presenoldeb y fryngaer, y mwnt a'r llys.



Bont Newydd (Ymweliad 2)

### Ymweliad 3 — Linsiedi a chytiau hir

Croeswch y bont a throwch i'r dde ar unwaith. Ar ôl tro o fewn 220 llath (200m), ewch yn syth ymlaen dros bompren a thrwy glwyd fechan i ymuno â Llwybr y Gogledd gan fynd i mewn i Warchodfa Natur Genedlaethol Coedydd Aber, sy'n enwog am ei choetiroedd a'i chen.

Mae yna lawer o dai o'r Oes Haearn a'r Canol Oesoedd a gweddillion caeau yn y dyffryn hwn — arwydd o gymysgedd o dir coediog ac agored yn y gorffennol.

Parhewch i fyny'r llwybr am 0.62 o filltiroedd (1 km), heibio Bwthyn Nant, yna trwy ddwy set o gatiâu haearn. Tua 220 llath (200m) ar ôl yr ail gât, bydd grŵp o bum sribyn o dir cyfochrog ar ffurf teras, pob un tua 3 troedfedd

(1 m) o uchder a 13 troedfedd (4 m) o led, yn codi ar lethrau'r bryn i'r dwyrain. Bydd angen i chi edrych yn ofalus i ddod o hyd i'r rhain, yn enwedig pan fydd y rhedyn yn uchel.

'Linsiedi' yw'r rhain, a ffurfiwyd gan broses o aredig ar draws y llethr dros gyfnod o amser. Maen nhw yn ôl pob tebyg yn ganoloesol, ac yn dangos bod yna bocedi o dir wedi'i drin yn bod hyd yn oed yn y dirwedd ucheldirol hon.

Os nad yw'r rhedyn yn rhy uchel, efallai y byddwch am adael y llwybr er mwyn dringo i frig yr ail o'r linsiedi yma. Yno, ger ffens y blanhigfa goedwigaeth, mae corlan o gerrig hirgrwn a gafodd ei hadeiladu, rhywdro yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg,

ymhlith sylfeini clwstwr o naw o 'gytiau hir'. Mae cytiau hir o'r fath — adeiladau hirsgwar sydd i'w gweld bellach ar ffurf cloddiau isel o bridd a cherrig — yn nodweddiadol o'r dirwedd o gwmpas Aber.

Cafodd y grŵp hwn ei gloddio yn 1961. Mae'r rhan fwyaf yn dyddio o'r ddeunawfed ganrif a dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ac, yn ôl pob tebyg, yn olion llaethdy. Fodd bynnag, mae'r pâr top (annedd ac ysgubor) yn hŷn, wedi eu torri i mewn ar ongl sgwâr i lethr y bryn ac erbyn hyn wedi eu gorchuddio'n rhannol gan y gorlan. Roedd crochenwaith a ddarganfuwyd yno'n eu dyddio nhw i'r drydedd ganrif ar ddeg.



Linsiedi yw'r cloddiau yn y llun hwn, wedi eu creu gan aredig cyson (Ymweliad 3)



Nodwyd bod dau o'r adeiladau yn y clwstwr hwn o gytiau hir yn deillio'n ôl i'r drydedd ganrif ar ddeg (Ymweliad 3)

## Aber mewn ffynonellau hanesyddol

Roedd Aber yn un o hoff lysoedd tywysogion Gwynedd ac mae ffynonellau hanesyddol yn tystio i nifer o ddigwyddiadau pwysig yno. Bu farw gwraig Llywelyn ab Iorwerth, Siwan, yn Aber yn 1237, fel y bu ei fab a'i olynnydd, Dafydd, naw mlynedd wedyn. Mae'n bosib bod Eleanor, gwraig Llywelyn ap Gruffudd, hefyd wedi marw yno ym Mehefin 1282 wrth eni ei merch, Gwenllïan.

Mae bron yn sicr bod John Pecham, archesgob Caergaint, wedi cyrraedd Aber ym mis Tachwedd 1282 er mwyn cynnig telerau

heddych beichus i Lywelyn ap Gruffudd, mewn ymdrech ofer i osgoi rhyfel posib gydag Edward I.

Mae cofnodion eraill yn rhoi cipolwg prin i ni o weithgaredd bob dydd yr ardal ac o bobl ar ben arall yr ysgol gymdeithasol. Nwyddau oedd llawer o daliadau pobl i'r tywysog. Ar ôl i Edward I oresgyn gogledd Cymru, fe fu syrfewyr brenhinol yn cofnodi'r dyledion hyn er mwyn cael eu gwerth mewn arian ar gyfer trethiant yn y dyfodol. Mae cysylltu'r cofnodion hyn gyda safleoedd a manau archeolegol yn taflu goleuni ar sut yr oedd tir a chymdeithas yn cael eu trefnu o dan y tywysogion.



#### Ymweliad 4 — Odyn/tŷ crwn

*Os buoch yn gweld y cytiau hir, ewch yn ôl at y prif llwybr. Ewch ymaith am 165 llath (150m).*

I'r dde (y gorllewin) o'r llwybr, mae safle hen dŷ crwn o Oes yr Haearn — adeiladwyd odyn sychu grawn arno yn y Canol Oesoedd. Daeth hanes hir y safle i'r amlwg trwy waith cloddio archeolegol a wnaed rhwng 2005 a 2010 gan bobl leol a myfyrwyr.

Mae'r odyn, sydd o bosib yn dyddio o'r un cyfnod â'r cytiau canoloesol hir, yn cynnig tystiolaeth bellach o ffermio â'r yn y cyffiniau. Fe welodd yr archeolegwyr bod gwenith, barlys ac, yn enwedig, ceirch yn cael eu sychu yn yr odyn. Roedd ceirch a barlys yn dda o brif rawnfwydydd y canoloesoedd, ond roedden nhw hefyd yn cael eu defnyddio'n helaeth i borthi gwartheg. Yma yn Aber, yn union fel mewn mannau eraill yng Ngwynedd, roedd magu gwartheg yn ganolog bwysig i economi ystadau'r tywysogion yn yr ucheldiroedd yn y drydedd ganrif ar ddeg. Mae'n debyg, felly, bod llawer o'r ceirch a'r barlys a dyfwyd yma ac a sychwyd yn yr odyn yn mynd at fwydo gwartheg yn hytrach na phobl.

© John G. Roberts



*Safle'r tŷ crwn yn ystod y cloddio*

© Roland Flook, GAT



*Y tŷ crwn o Oes yr Haearn a ddaeth yn safle i odyn sychu grawn yn y Canol Oesoedd (Ymweliad 4)*



*Mae tirwedd Cae'r Mynydd (Ymweliad 5) yn dangos olion caeau ac aneddiadau o Oes yr Haearn, yn ogystal ag aredig canoloesol a chytiau hir*

#### Ymweliad 5 — Cae'r Mynydd: porfa ac amaethyddiaeth yr ucheldir

*Dilynwch y llwybr at olygfa ysblennydd o'r Rhaeadr Fawr. Croeswch yr afon ar y bont droed islaw'r rhaedrau a pharhewch i'r gorllewin o amgylch pen y dyffryn ar Lwybr Gogledd Cymru. Ar ôl 0.62 milltir (1km) mae'r llwybr yn troi tua'r gogledd, gan droi'n drac fferm wrth ddringo. Dilynwch y llwybr nes cyrraedd ceblau trydan uwchben ac yna parhewch am tua 220 llath (200m) i gyrraedd safle da yn uchel ar ochr y dyffryn.*

Cae'r Mynydd yw'r enw ar yr ardal hon ac mae tirwedd gyfoethog o sawl cyfnod yn ymestyn o'ch blaen — tirwedd lle mae olion anheddiadau Oes yr Haearn a thair crwn a chaeau cysylltiedig yn cael eu gorchuddio gan brosesau aredig canoloesol a chytiau hir.

Mewn ffotograffau o'r awyr, mae'n hawdd gweld banciau, cribau a therasau a ffurfiwyd gan gyfnodau hir o dyfu cnydau grawn. Hyd yn oed yn y drydedd ganrif ar ddeg, pan oedd yr hinsawdd yn fwy ffafriol, dim ond rhywogaethau gwydn fel barlys, rhyg a cheirch a fyddai wedi tyfu yma.

Mae'r cofnodion yn dangos bod taegion Aber yn gorfod talu llawer o farlys a cheirch i'r tywysog ac yn ddiau byddai llawer o'r grawn o Gae'r Mynydd wedi mynd at fwydo'r gymroedd o wartheg a gedwid ar y ffriddoedd brenhinol yn y gymdogaeth. Er bod Aber ger yr arfordir, mae'n bennaf yn blwyf ucheldir lle mae tir pori'n adnodd allweddol. Gwyddom bod o leiaf bump o ffriddoedd brenhinol yma yn y drydedd ganrif ar ddeg. Mae eu lleoliadau tebygol yn cael eu dangos ar y map.

Roedd symud stoc a phobl o'r iseldiroedd i'r ucheldiroedd yn yr haf yn nodwedd draddodiadol, er amrywiol, o fywyd yn ucheldir Cymru. Roedd tir uchel y Cameddau, i'r de o Aber, yn ôl pob tebyg yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd hon yn y drydedd ganrif ar ddeg, ac fe fyddai'r bobl yn godro er mwyn cael menyn a chaws. Oherwydd y patrwm hwn y codwyd yr hafotai, y tyddynnod tymhorol sy'n nodwedd mor gyfarwydd o ucheldir Cymru.

Roedd y ffriddoedd brenhinol, fodd bynnag, yn cael eu ffermio'n fwy dwys ac, o bosib, yn cael eu pori drwy'r flwyddyn er mwyn cael yr incwm gorau i'r tywysog o fagu gwartheg. Fel y dengys y map, roedd y ffriddoedd mewn dyffrynnoedd neu ar lethrau cysgodol. Y taegion a fyddai'n eu ffermio ac mae'n bosib mai'r cytiau hir yng Nghae'r Mynydd, sydd wedi'u crynhoi rhwng y ffriddoedd a'r mynydd agored, oedd

## Llys a maerdref

Roedd Gwynedd yn y drydedd ganrif ar ddeg wedi ei rhannu'n 22 o gymydau a phob un yn cael ei weinyddu o lys. Roedd y llys yn gasgliad o adeiladau a allai gynnwys neuadd neu neuaddau, cegin, stablau ac adeiladau domestig eraill. Roedd y tywysog a'i osgordd yn symud rhwng y cymydau hyn, gan lywodraethu, gweinyddu cyfiawnder a difyrru uchelwyr a chlerigwyr.

Y llys oedd calon y faerdref, maestref frenhinol arbennig gyda'i thiroedd cysylltiedig. Taeogion neu fileiniaid — tenantiaid anrhydd nad oedd yn gallu priodi, symud

neu etifeddu a gadael tir mewn ewyllys heb ganiatâd y tywysog — oedd yn byw yno.

Roedd yna bymtheg ar hugain o gartrefi taeog yn Aber yn niwedd y drydedd ganrif ar ddeg. Yn ogystal â llafurio i'w cynnal eu hunain, roedd rhaid i bob cartref taeog weithio am drigain diwrnod y flwyddyn yn ddi-dâl i'r tywysog. Roedd eu tasgau'n amrywio o ffemio tir â'r thir pori brenhinol i dorri mawn a chasglu coed tân. Roedd yn rhaid i'r taeogion gadw gwas yn y llys drwy gydol y flwyddyn hefyd.

Yn ogystal â'u gwasanaethau llafur, roedd yn rhaid i'r taeogion dalu taliadau



© Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Llyfr Peniarth 28.f.v

*Tywysog Cymreig mewn darlun o gopi o'r drydedd ganrif ar ddeg o lyfr cyfraith Hywel Dda*

rheolaidd i'r tywysog, yn aml mewn nwyddau. Er enghraifft, unwaith pob tymor, roedd taeogion Aber yn darparu diwrnod o gynhalieth ar gyfer tua 100 o aelodau o'r osgordd frenhinol a'u ceffylau. Roedd y cynnyrch a gyflenwid i lys y tywysog yn cynnwys mêl, menyn, blawd, cig, ieir ac wyau.

Roedd taliadau cyffredin mewn manau eraill yng Ngwynedd yn dangos bod y llys yn gallu bod yn enfawr. Roedd maerdref Nefyn ym Mhenllyn yn gorfod darparu ar gyfer 500 o bobl mewn helfa flynyddol, tra bod ffigyrau cymhariol ar gyfer rhai o faerdrefi Ynys Môn yn croesi'r mil.

© Roland Flook, GAT



*Ucheldir glaswelltlog Cae'r Mynydd gyda Rhaeadr Fawr yn y pellter*

cartrefi'r bobl oedd yn cyfuno rheolaeth fwy dwys o'r tiroedd pori brenhinol gyda phori tymhorol. Mae'n bosib bod y pâr o adeiladau canoloesol lle bu cloddio yn y dyffryn yn gysylltiedig â datblygiad y ffriddoedd.

### Ymweliad 6 — Ffridd Ddu

*Ewch hyd y llwybr am tua 0.3 milltir (0.5km) nes cyrraedd cyffordd-Y toc ar ôl dau dro siarp.*

Y tir rhwng y pentref a'r arfordir yw'r cyfoethocaf yn y faestref, ac roedd gwenith, y grawn mwyaf gwerthfawr, yn cael ei dyfu yma. Roedd y meysydd wedi'u trefnu mewn sribedi, gyda'r rhai a roddwyd i'r taeogion yn gorwedd wrth ochr sribedi'r tywysogion. Rhan o'r gwasanaeth llafur oedd yn ddyledus i'r tywysog gan y taeogion oedd trin ei sribedi ef yn ogystal â'u rhai eu hunain. Enw'r fferm o'ch blaen (gyda phatrymau plannu Prifysgol Bangor sy'n berchen arni) yw Henfaes, enw sy'n cofio'r hen diroedd â'r.

Wrth sefyll yma, mae'n hawdd dychmygu llinell yr hen llwybr i Ynys Môn ar draws

Traeth Lafan. Ym mis Tachwedd 1282, yn ôl pob tebyg yn fuan ar ôl taith genhadol yr Archesgob Pecham, daeth byddin Seisnig i wersylla yn Llan-faes a, gan weithredu heb orchymyn gan Edward I, fe geisio nhw wneud cyrch herfeiddiol ar draws Afon Menai. Roedd hyn yn drychineb i'r Saeson, gan fod llawer wedi boddi. Ond o fewn wythnosau, cafodd Llywelyn ap Gruffudd ei ladd.

Cyn i'r drydedd ganrif ar ddeg ddod i ben, cafodd poblogaeth Llan-faes ei throï allan a chafodd y gymuned ei disodli gan Bwmares a'i chastell. Mae'r newidiadau hyn yn symbolaidd o effaith ehangach y goresgyniad Edwardaidd ar strwythurau llywodraethu brodorol Cymreig.

Yn Aber, er gwaethaf y gwaith adeiladu

yn y llys yn y 1300au cynnar, dadfeilliodd cyfadeilad y tywysogion.

Yr oedd yn adfail llwyr erbyn yr unfed ganrif ar bymtheg, ac o bosib, ymhell cyn hynny. Cafodd taliadau a rhwymedigaethau arferol y taeogion, a oedd wedi cynnal y llys ar gyfer llys eithiol tywysogion Gwynedd, eu troi'n drethi a rhenti i frenin Lloegr.

### Diwedd y daith

*Ewch ymlaen ar hyd y llwybr nes cyrraedd llwybr croes arall. Disgynnwch ar eich union i lawr llwybr serth, ond uniongyrchol, yn ôl i'r pentref neu ewch yn syth ymlaen at rîw llai serth, ond hwy (wedi ei farcio â llinell fylchog ar y map). Mae'r ddau lwybr yn dod i'r ffordd sy'n rhedeg trwy'r pentref. Trowch i'r chwith ar y ffordd i ddychwelyd i'r maes parcio. ➔*



© John G. Roberts, SNPA

*Y caeau ffrwythlon ar y tir rhwng y pentref a'r môr (Ymweliad 6). Henfaes yw'r fferm yn y blaen. (Mae'r llwybr serth yn ôl i'r pentref yn cychwyn i'r dde o'r arwydd bychan)*